# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 18 Gorffennaf 2003

**R yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o lawdriniaethau a ddarparwyd gan y sector iechyd preifat yng Nghymru ym 1997, a faint a ddarparwyd yn 2002. (WAQ27396)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa hyfforddiant y mae'n rhaid i'r staff sy'n gweithio yng nghanolfannau galw'r GIG ei gael. (WAQ27397)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y strategaeth ynni ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ27394)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pryd y bydd gwybodaeth am effeithlonrwydd ynni adeilad newydd y Cynulliad ar gael. (WAQ27395)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch faint o gyllid a roddodd ELWa tuag at noddi'r brecwast bys-a-bawd yn y digwyddiad busnes a gynhelir ddydd Mercher 24 Medi 2003 yng Nghanolfan Dechnoleg Sony, Pencoed. (WAQ27390)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i chydweithwyr yn San Steffan er mwyn datrys y problemau sy'n deillio o'r ffaith bod benthyciadau myfyrwyr yn cael eu cyfrif fel 'incwm' mewn perthynas â thaliadau cymhorthdal incwm. (WAQ27398)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o bensiynwyr yng Nghymru sydd wedi manteisio ar y cynllun teithio am ddim ar fysiau. (WAQ27385)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr amcangyfrif o gyfanswm cost y cynllun teithio am ddim ar fysiau yng Nghymru. (WAQ27386)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pa gynnydd y mae'r Gweinidog wedi'i wneud mewn trafodaethau gyda'r Adran Masnach a Diwydiant a'r Grid Cenedlaethol ynghylch cynhyrchu ynni ar raddfa fechan yng Nghymru. (WAQ27388)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pa gymorth y mae adran y Gweinidog yn ei gynnig i grwpiau o ddinasyddion sy'n dymuno cynhyrchu ynni o adnoddau adnewyddadwy. (WAQ27389)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch faint o gyllid y mae'r WDA wedi ei roi tuag at gynorthwyo a noddi'r brecwast bys-a-bawd yn y digwyddiad busnes a drefnwyd gan Sony, y Siambr Fasnach, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ELWa a Masnach Cymru Rhyngwladol yng Nghanolfan Dechnoleg Sony, Pencoed a gynhelir ar 24 Medi 2003. (WAQ27391)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi cyfrifon y Brecwast Bys-a-bawd yn y Digwyddiad Busnes a gynhelir ddydd Mercher 24 Medi 2003. (WAQ27392)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch faint o gyllid y mae MasnachCymru Rhyngwladol wedi ei roi tuag at gynorthwyo a noddi'r brecwast bys-a-bawd yn y digwyddiad busnes a drefnwyd gan Sony, y Siambr Fasnach, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ELWa a'r WDA yng Nghanolfan Dechnoleg Sony, Pen-coed, a gynhelir ar 24 Medi 2003. (WAQ27393)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn ynghylch y posibilrwydd o israddio'r A483 o fod yn gefnffordd. (WAQ27402)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn ynghylch y posibilrwydd o uwchraddio'r A44 i fod yn gefnffordd. (WAQ27403)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn ynghylch gwasanaethau rheilffordd i'r gorllewin o Abertawe. (WAQ27404)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar annog defnyddio rheilffyrdd yn Sir Benfro. (WAQ27405)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa fesurau sy'n bodoli er mwyn annog rhagor o ddefnydd o'r rheilffyrdd er mwyn cludo nwyddau o Abergwaun. (WAQ27406)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sut y mae'r Gweinidog yn sicrhau bod yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn diwallu anghenion Cymru o ran rheilffyrdd. (WAQ27407)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa ofynion sy'n bodoli o ran gwella cerbydau trenau yng Nghymru. (WAQ27408)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch p'un a all ffermwyr bellach ddefnyddio papurau y maent wedi'u hargraffu eu hunain o'r cyfrifiadur wrth gyflwyno cais am gymorthdaliadau o dan y Cynllun Premiwm Buchod Sugno. (WAQ27387)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddefnyddio ffyngladdwyr o fath Benomyl ac unrhyw ymchwiliadau sydd wedi'u cynnal i'w heffeithiau ar iechyd pobl. (WAQ27399)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa broses y mae'n rhaid i Awdurdod Cynllunio Mwynau ei defnyddio er mwyn dirymu Gorchymyn Datblygu Interim. (WAQ27400)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn ynghylch Chwarel Llanfair. (WAQ27401)